

CANLLAWIAU'R BWRSARIAETH AR GYFER CYRSIAU NFTS CYMRU WALES

Darllenwch yn ofalus

Nod y bwrsariaethau hyn, sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, yw helpu i gynyddu amrywiaeth a chydaddoldeb o fewn y diwydiant sgrin a theledu yng Nghymru drwy helpu'r rheini o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rheini a fyddai, heb gymorth ariannol, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.

Pain gaiff ei ddyfarnu, bydd y bwrsariaeth yn talu cyfran o gost cwrs, ac mewn rhai achosion, yn ei ariannu'n llawn. Dim ond i'r rhaid sy'n gymwys ac sy'n gallu dangos ymrwymiad i'w dewis faes o hyfforddiant neu waith y mae bwrsariathau ar gael. Bydd bwrsariathau'n cal eu dyrannu ar sail asesiad NFTS Cymru Wales o'r cais, gan gynnwys meini prawf ariannol ac amrywiarth tystriolaeth ategol a datganiad personol. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr a fydd yn hyrwyddo nod yr ysgol a'r sector o gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y diwyddiannau sgrin.

Mae gennym swm cyfyngedig o arian i'w ddsbarthu ond anelwn at ddarparu cymorth bwrsariath ar gyfer tua thraean o'n lleodd cwrs. Bydd eich caise yn ebyrn y meini prawf a nodir yn y canllawiau hyn ar sail y cyntaf i'r felin.

Mae ein meini prawf ar gyfer darparu cymorth yn seiliedig ar incwm ac amrywiaeth a chynhwysiant a amlinellir isod.

- Dros 18 oed
- Wedi byw yng Nghymru am y 3 blynedd diwethaf
- Ddim mewn addysg amser llawn ar adeg y cwrs.

MEINI PRAWF INCWM

Os ydych yn ennill **£21,000** y flwyddyn neu'n llai fel unigolyn, neu'n byw mewn cartref ag incwm cyfunol o lai na **£34,000**, efallai y byddwch yn gymwys i gael cyfraniad at gostau ffioedd a/neu ofal.

Os ydych yn ennill **£25,500** y flwyddyn neu'n llai fel unigolyn, neu'n byw mewn cartref ag incwm cyfunol o lai na **£40,000 AC yn bodloni o leiaf un o'n meini prawf amrywiaeth a chynhwysiant**, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael cyfraniad at gostau ffioedd a/neu ofal.

MEINI PRAWF AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rydyn ni'n awyddus iawn i annog cyfranogwyr o ystod eang o gefndiroedd a'r rhai a allai fod wedi profi rhwystrau rhag datblygu o fewn y diwydiant ffilm, teledu a gemau. Rydym ni'n croesawu ceisiadau yn benodol gan bobl sy'n ystyried bod unrhyw un o'r canlynol yn rhwystr iddyn nhw:

- anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys cyflyrau hirdymor sy'n gwaethygu o'r pwynt diagnosis.

- gwahaniaeth dysgu
- yn dod o gefndir lleiafrif ethnig
- yn byw mewn ardal ddaearyddol o Gymru lle mae pellter ac argaeledd trafndiaeth yn cyfyngu ar fynediad at hyfforddiant proffesiynol
- yn ofalwr
- yn fenyw (neu'n cyfeirio at ei hun fel menyw) ac anelu at arbenigo ym meysydd technegol ffilm a dramâu teledu, neu gyfarwyddo.
- Yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol difreintiedig sy'n effeithio, neu wedi effeithio ar eich dilyniant gyrfa.

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf incwm a/neu'n gofyn i rywun dalu am eich cyfrifoldebau gofalu wrth fynychu'r cwrs, efallai y byddwch hefyd yn derbyn cyfraniad at gyfanswm y costau gofal.

Darperir bwrsariaethau yn ôl disgrisiwn NFTS Cymru Wales. Maen nhw'n cael eu talu er mwyn i chi allu mynychu hyfforddiant gyda ni. Nid benthyciadau yw bwrsariaethau. Nid oes rhaid i chi eu talu'n ôl.

Sylwer:

- Rhaid i chi fod yn byw yng Nghymru ers tair blynedd neu fwy. I grwpiau penodol (e.e. teithwyr), gellir hepgor yr angen i ddangos tystiolaeth o lle rydych chi'n byw, yn ôl disgrisiwn NFTS Cymru Wales.
- Mae'r bwrsariaethau yn destun prawf modd a dim ond os yw incwm eich aelwyd ar y trothwy incwm neu'n is na'r trothwy incwm a nodir y cewch eich ystyried yn gymwys.
- Mae cael eich derbyn ar y cwrs o'ch dewis yn rhagofyniad o ran cael eich ystyried ar gyfer bwrsariaeth.
- Ni ddyfernir bwrsariaethau i fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd mewn addysg llawn amser a gefnogir gan y llywodraeth.

Gofynnir i chi ddarparu datganiad personol sy'n dweud wrthym pam eich bod yn gwneud cais am gymorth ariannol ar gyfer y cwrs hwn, a dylai gynnwys:

- Eich rhesymau dros eisiau cymryd rhan yn y cwrs hwn;
- Y rhwystrau rydych chi'n eu hwynebu wrth sefydlu neu ddatblygu gyrfa yn y diwydiannau sgrin;
- Sut rydych chi'n bwriadu defnyddio'r profiad a ddatblygwyd ar ôl cymryd rhan yn y cwrs hwn ar gyfer eich gwaith yn y dyfodol;
- Unrhyw brofiad blaenorol yn y maes hwn;
- P'un a ydych eisoes wedi ymgymryd â hyfforddiant yn y maes hwn, ac os felly beth a phryd;
- Sut byddwch yn ariannu unrhyw falans sy'n ofynnol, gan gynnwys hunan-gyllido.

BWRSARIAETHAU SYDD AR GAEL

- **Cyfraniad tuag at ffioedd y cwrs sy'n seiliedig ar feini prawf incwm, amrywiaeth a chynhwysiant**
Mae'r cyfraniad hwn tuag at ffioedd y cwrs ar gael os ydych yn bodloni'r meini prawf incwm, amrywiaeth a chynhwysiant.
- **Cyfraniad tuag at ffioedd y cwrs sy'n seiliedig ar incwm yn unig**
Mae'r cyfraniad hwn tuag at ffioedd y cwrs ar gael os ydych yn bodloni'r meini prawf incwm.
- **Bwrsariaeth costau gofal**
Mae'r cyfraniad hwn tuag at gyfanswm costau gofal ar gael os ydych yn bodloni'r meini prawf incwm a lle bo angen talu rhywun i ysgwyddo eich cyfrifoldebau gofalu tra'n mynychu'r cwrs.

TYSTIOLAETH O GYMHWYSEDD

Er mwyn asesu eich cymhwysedd am fwrsariaeth, rydyn ni'n gofyn i chi ddarparu gwybodaeth bersonol benodol. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn gyfrinachol a bydd yn cael ei hadolygu gan NFTS Cymru Wales ac adran Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi ein bwrsariaethau yn unig. Dim ond ar gyfer asesu eich cymhwysedd ar gyfer bwrsariaeth NFTS Cymru Wales y byddwn yn ei defnyddio, ac os yn llwyddiannus, i brosesu eich bwrsariaeth.

Bwrsariaethau ar gyfer ffioedd y cwrs

Gofynnwn i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol (lle bo'n berthnasol) ynghyd â'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau ar gyfer y fwrsariaeth.

Tystiolaeth eich bod yn byw yng Nghymru (darparwch un)

*Bil cyfleustodau (e.e. nwy, trydan, treth gyngor)
Llythyr wrth eich awdurdod lleol wedi'i gyfeirio atoch chi
Cyfriflen banc wedi'i chyfeirio atoch chi*

I grwpiau penodol (e.e. teithwyr), gellir hepgor yr angen i ddangos tystiolaeth o lle rydych chi'n byw, yn ôl disgrisiwn NFTS Cymru Wales.

Tystiolaeth o'ch incwm (darparwch un)

*P60
Hysbysiad TCAN llawn
Enillion hunangyflogedig (ffurflen dreth swyddogol)
Budd-daliadau eraill neu lythyr sy'n dyfarnu pensiwn*

a slipiau cyflog y tri mis diwethaf ar gyfer eich aelwyd

NEU dystiolaeth o hawl aelodau'r teulu i dderbyn Cymhorthdal Incwm/Credyd Cynhwysol
NEU gyfriflenni banc y tri mis diwethaf ar gyfer eich aelwyd

Bwrsariaethau ar gyfer costau gofal

I fod yn gymwys am fwrariaeth am gostau gofal, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o gost trefniadau gofal amgen ar gyfer y person/pobl rydych chi'n unig ofalwr ar eu cyfer drwy gydol y cwrs. Caiff bwrsariaethau ar gyfer costau gofal eu talu wrth gyflwyno derbynebaw/anfonebau gwreiddiol i NFTS Cymru Wales.

DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU

Dylid gwneud cais am fwrariaethau cyn gynted a phosibl er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi sicrhau un.

Mae'r rhaglen fwrariaeth yn ddewisol gyda dyddiad cau treigl. Serch hynny, mae cyllid yn gyfyngedig ac unwaith y bydd cyfanswm y gronfa wedi; i ddyfarnu, bydd y rhaglen yn cau.

DERBYN BWRARIAETH

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn cael gwybod drwy e-bost ac yn cael gwybod faint y gallwn ei gynnis a'r balans sy'n daladwy gennych chi. Unwaith y byddwch wedi derbyn y cynnis, ni allwn ailedrych ar eich cais.

CEISIADAU AM SAWL FWRARIAETH

Os ydych wedi derbyn bwrsariaeth wrthym, rhaid i chi **aros am ddeuddeg mis** cyn gwneud cais am un arall oni bai bod y fwrariaeth bellach ar gyfer cwrs sy'n amlwg yn eich datblygu o fewn eich arbenigedd. Er enghraifft, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer cwrs deuddydd rhagarweiniol a thystysgrif neu gwrs diploma cysylltiedig, os ar gael, o fewn yr un flwyddyn. Serch hynny, mae'n annhebygol y byddwn yn cefnogi bwrsariaethau ar gyfer sawl cwrs byr mewn meysydd sydd ddim yn gysylltiedig.

CYSWYLLTWCH Â NI

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'n bwrsariaethau, y broses fwrariaeth neu os oes angen cymorth arnoch i gwblhau eich cais, e-bostiwch wales@nfts.co.uk gydag 'Ymholiad Bwrsariaeth' fel pennawd.

Byddwn yn cadw golwg ar y meini prawf hyn, gan gynnwys trothwyon ariannol.

Mehfin 2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government